# Archwiliwch y llun

John Constable

*Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831



*Salisbury Cathedral from the Meadows* 1831
John Constable (1776 – 1837)
Ffotograff © Tate, Llundain 2013

Prynwyd gyda chymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Sefydliad Manton, y Gronfa Gelf (gyda chyfraniad gan Sefydliad Wolfson) ac Aelodau Tate.

Pan gafodd y paentiad hwn ei arddangos yn yr Academi Frenhinol, fe wnaeth Constable gynnwys dyfyniad naw llinell o'r gerdd *The Four Seasons: Summer* (1727) gan James Thompson, bardd o'r Alban, i ategu'r ystyr.

*As from the face of heaven the scatter'd clouds*
*Tumultous rove, th'interminable sky*
*Sublimer swells, and o'er the world expands*
*A purer azure. Through the lightened air*
*A higher lustre and a clearer calm*
*Diffusive tremble; while, as if in sign*
*Of danger past, a glittering robe of joy,*
*Set off abundant by the yellow ray,*
*Invests the fields, and nature smiles reviv'd*

James Thompson, *The Seasons: Summer* (1727)

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Mae'r gerdd yn portreadu'r chwedl am y cariadon ifanc Celadon ac Amelia. Wrth iddynt gerdded drwy'r goedwig yng nghanol storm, mae Amelia druan yn cael ei tharo gan fellten, ac yn marw ym mreichiau ei chariad. Mae gan y gerdd neges grefyddol: mae'n archwilio grym Duw, ac anallu dyn i reoli ei dynged ei hun. Mae hefyd yn gerdd am obaith ac achubiaeth. Daw'r enfys yn arwydd o berygl a fu.

Mae'n bwnc sy'n atseinio galar personol Constable. Bu farw Maria ei wraig o'r diciâu ym 1828, wedi deuddeg mlynedd o briodas. Mae'n debyg bod y gerdd yn hynod arwyddocaol i'r cwpl ifanc. Pan oedd Maria yn gwegian ac yn ansicr a ddylai briodi Constable neu beidio, byddai'n aralleirio llinellau o'r gerdd er mwyn ceisio lleddfu'i hofnau.

## Manylu ar y manylion

***Eglwys Gadeiriol***

Pan beintiodd Constable lun o Eglwys Gadeiriol Caersallog, roedd dyfodol yr Eglwys Anglicanaidd yn y fantol. Mae'n dangos yr Eglwys dan gwmwl du, a mellten yn taro'r to – a fydd yn llwyddo i oroesi'r storm? Mae'r meindwr – a ddisgrifiwyd gan Constable fel *'darting up into the sky like a needle'* – yn trywanu'r tywyllwch i lygedyn o oleuni. Awgrym o'i obaith ar gyfer dyfodol yr Eglwys, o bosibl.

***Cymylau Stormus***

*'The sky is in a state of utter derangement'* – dyna oedd cwyn *The Morning Herald* pan gafodd y darlun hwn ei arddangos am y tro cyntaf. Roedd eraill yn ei ddisgrifio fel anhrefn llwyr. Ond mae'n rhan allweddol o ystyr y darn. Nid cefnlen yn unig oedd yr awyr i Constable. Mae'n gallu cyfleu naws a chyflyrau emosiynol gwahanol. Mae'r awyr yma'n cael ei ystyried fel mynegiant o alar a phoen meddwl a deimlai ar y pryd. Bu farw Maria ei wraig o'r diciâu ym 1828, ac roedd yn poeni'n ddirfawr am ddyfodol yr Eglwys Anglicanaidd. Mae'r ôl brwsio chwim yn ychwanegu at y wefr emosiynol hon.

***Enfys***

Dywedodd Constable *'nature… exhibits no feature more lovely nor any that awaken a more soothing reaction than the rainbow'.* Mae'r enfys yn cynrychioli llygedyn o obaith mewn dyddiau cythryblus, yn arwydd bod y storm ar fin mynd heibio.

***Leadenhall***

Mae pen draw'r enfys i'w gweld yn Leadenhall, cartref yr Archddiacon John Fisher, cyfaill agos Constable. Nid cyd-ddigwyddiad mo hyn: roedd Fisher wedi cynnig cysur a chymorth emosiynol i Constable ar ôl colli'i wraig. Fisher oedd y cyntaf i annog Constable i beintio llun o Eglwys Gadeiriol Caersallog. Bu farw prin flwyddyn ar ôl i'r paentiad gael ei arddangos am y tro cyntaf.

***Pompren***

Roedd Constable wedi dotio gyda manylion bach syml y bywyd gwledig. *'Old rotten planks, slimy posts, and brickwork, I love such things'* ysgrifennodd mewn llythyr at John Fisher. Mae'r paent yma'n drwchus a garw, ac yn awgrymu gwedd a graen naturiol y bompren – manylyn syml na fyddai'r rhan fwyaf o arlunwyr y dydd wedi ystyried ei gynnwys.

***Eglwys St Thomas***

Mae eglwys blwyf gyfagos St Thomas bron ynghudd yn y coed. Does dim modd gweld yr eglwys o'r llecyn hwn mewn gwirionedd, felly pam mae Constable wedi tynnu'n sylw ati? Ai ar gyfer cyfansoddiad y llun yn unig, neu oes yna esboniad arall? Ni wyddom naill ffordd neu'r llall.

***Ceffyl a Throl***

I Constable, nid oedd yr un tirlun yn gyflawn heb olion bywyd bob dydd. Byddai'n llenwi ei lyfrau braslunio â manylion bach, ac yn eu hychwanegu at ei baentiadau wedyn. Yma, mae ceffyl a throl yn croesi afon Nadder. Mae'r portread bychan o'r drol wedi'i gymharu'n aml â'r *Hay Wain* (1821), un o'i baentiadau enwocaf. Mae'r ci defaid yn ymddangos yn aml yng ngweithiau Constable, fel *The Cornfield* (1826).